Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

COETIROEDD GWELL I GYMRU

BETTER WOODLANDS FOR WALES

Grantiau a chymorth i greu a gwella coetiroedd

Grants and support for creating and improving woodlands

CYLCHLYTHYR TECHNEGOL

Rhifyn 14 – Mehefin 2008

Cynnwys

- Nodyn golygyddol
- Ple gan Plant!
- Arf dolennu gofodol
- Estyniad i daliadau atgyfnerthu mapio digidol
- Ceisiadau am fapiau digidol a phapur
- Ymgynghoriad â Cadw
- Cyswllt gyda'r tîm Gwasanaethau Technegol
- Tudalen llofnod cynllun sylfaenol
- Gweithrediadau a gwneud ceisiadau
- Diweddariad a datganiadau'r System Grantiau a Thrwyddedau Ar-lein yn y dyfodol (GLOS)
- Cynlluniau peilot CGG
- Menter Ceirw
- Anawsterau gydag Office 2007
- Diweddariad ar gynllun iaith diwygiedig CGG a CCC
- Diweddariad Staff
- Manylion cyswllt a dyddiadau'r rhifynnau nesaf

Nodyn golygyddol

Croeso i rifyn 14 o'n cylchlythyr. Yn y rhifyn hwn rydym yn falch i ddweud wrthych am rai gwelliannau i'n System Grantiau a Thrwyddedau Ar-lein (GLOS) ac yn cynnig rhai awgrymiadau a all leddfu rhywfaint ar eich gwaith fel Cynllunydd Rheolaeth. Mae digon o newyddion a chyngor arall ar gael, felly edrychwch ar ein rhestr cynnwys a darllenwch ymlaen.

Mae **"Plant! Coeden ar gyfer pob plentyn yng Nghymru",** sef menter gan LICC, yn chwilio am Bartneriaid i gymryd rhan yn y prosiect newydd a chyffrous hwn sy'n bwriadu plannu coeden ar safleoedd dethol ledled Cymru ar ran pob plentyn a anwyd neu a fabwysiadwyd yng Nghymru ers 1 Ionawr 2008.

Os ydych yn bwriadu plannu coetir brodorol newydd, y gellir ei blannu dros y 3 mlynedd calendr nesaf, sy'n fwy na 5 hectar (gorau oll os yw'n 10) o ran maint, y gellir ei gyrraedd yn hawdd o heol gyhoeddus, a lle parcio ar gyfer o leiaf 4 car a lle gellir gwarantu mynediad i'r cyhoedd am o leiaf 50 o flynyddoedd ac yr hoffech gefnogaeth cymorth grant ar gyfer 100% o'r costau, cysylltwch â Chris Botting, Rheolwr Prosiectau G ac Th ar ei rif ffôn uniongyrchol 01970 639840 neu drwy anfon neges e-bost at ei gyfeiriad: chris.botting@forestry.gsi.gov.uk

Arf dolenni gofodol

Newyddion da gan Martyn Potton, Rheolwr Technegol Grantiau a Thrwyddedau, ar ôl nifer o geisiadau gan Gynllunwyr Rheolaeth, rydym wedi llwyddo i leihau ôl troed yr arf dolenni gofodol. Yr ôl troed yw'r ardal o amgylch y cyrchwr y gellir dewis eitemau oddi fewn iddo.

Gostyngwyd yr ôl troed o 20 metr i oddeutu 3 metr. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i chi ddewis a chysylltu isadrannau bach. Yn ogystal, bydd yn golygu y bydd yn haws i chi ddewis llinellau a phwyntiau sy'n agos i'w gilydd. Fodd bynnag, yr anfantais yw'r angen i chi fod yn llawer mwy manwl gywir wrth ddewis eich llinellau a'ch pwyntiau. (**Awgrym**: Chwyddwch y nodwedd ofodol rydych am ei gysylltu, wedyn ar ôl i chi gysylltu, gallwch dynnu yn ôl a'i wneud yn llai unwaith eto).

Estyniad i'r taliadau atgyfnerthu mapio digidol

Gan fod y grŵp technegol yn adolygu'r cyfraddau ar gyfer paratoi cynlluniau rheoli Coetiroedd Gwell i Gymru (CGG) ac er ni wneir unrhyw newidiadau hyd fis Rhagfyr 2008 ar y cynharaf, penderfynom ymestyn y taliadau atgyfnerthu mapio digidol yn unol â thaliadau ychwanegol eraill.

Mapio digidol: taliadau atgyfnerthu a cheisiadau am fapiau

Mae hyn yn golygu bod unrhyw Gynllunydd Rheolaeth sy'n dechrau ar y llwybr mapio digidol yn gymwys i dderbyn taliad ychwanegol o £750 ar gyfer y ddau gais cyntaf a gymeradwywyd yn yr achosion hynny lle darparwyd mapiau achos ar gyfer Comisiwn Coedwigaeth Cymru (CCC) drwy ddefnyddio mapiau digidol sy'n bodloni'r safonau angenrheidiol. O hynny ymlaen, maent unwaith yn rhagor yn deilwng am daliad ychwanegol o £250 am achosion lle mae'r mapio digidol a ddarparwyd gan y Cynllunydd Rheolaeth yn bodloni'r safonau angenrheidiol. Mae ond yn deg nodi, yn yr achosion hynny lle cafwyd cais am y taliadau hyn gan y Cynllunydd Rheolaeth, na fyddwn yn disgwyl i'r Cynllunydd Rheolaeth ddychwelyd at ddefnyddio mapiau papur oni bai y dychwelwyd y taliadau gwreiddiol.

Gair i'ch atgoffa. Dyma'r safonau ar gyfer y mapiau digidol rydych yn eu darparu at ddefnydd CGG:

- Rhaid i chi ddarparu fersiwn ddigidol o ffiniau'r coetir a gwybodaeth is adrannol ar ein cyfer
- Y Prif Fap Arolwg Ordnans (OSMM) a ddarparwyd gan CCC fydd sail y map a ddefnyddir i ddal ffiniau'r coetir a'r wybodaeth isadrannol
- Bydd holl linellau a ffiniau sy'n dilyn OSMM yn cysylltu ag OSMM
- Bydd pob polygon yn gaeedig
- Bydd polygonau cyffiniol yn dilyn ffin gyffredin - heb fylchau na gorgyffyrddiadau
- Lle crëwyd gwaith llinell ychwanegol - heb ddilyn y sail OSMM - ni fydd 'ôl-giciau' na 'dolenni' yn dderbyniol; ac
- Ni ellir defnyddio ffotograffiaeth awyr a rhestr OS 1:10 000 i greu gwybodaeth ofodol.

Lle nad yw cyflwyniad map digidol yn bodloni'r safonau, bydd yn cael ei ddychwelyd at y Cynllunydd Rheolaeth i'w wirio.

Ceisiadau am fapiau digidol a phapur

Tra rydym yn sôn am fapio, a allwn ni atgoffa Cynllunwyr Rheolaeth i wneud pob cais am fapiau papur neu ddigidol drwy gyfeiriad e-bost bww.ts@forestry.gsi.gov.uk. Mae'r cyfeiriad hwn yn cael ei fonitro'n rheolaidd a bydd yn sicrhau bod eich cais yn cael ei drin yn gyflym. Os rydych yn anfon cais at gyfeiriad e-bost unigolyn, mae'n bosibl na fydd yn cael ei 'agor' ar unwaith oherwydd gwyliau, allan o'r swyddfa, ac ati.

Ymgynghori â Cadw

Ymgynghori â Cadw

Derbyniom gais gan Cadw yn gofyn i Gynllunwyr Rheolaeth sydd angen ymgynghori â Cadw ynglŷn â gwybodaeth am Henebion Cofrestredig (SAM) neu Barciau a Gerddi Hanesyddol, gynnwys enw SAM neu Barciau a Gerddi Hanesyddol ym mhennawd y neges e-bost os gwelwch yn dda. Bydd hyn yn galluogi Cadw i anfon y cais ymlaen yn union at y bobl iawn o fewn Cadw. Dylai hyn wedyn olygu bod y Cynllunydd Rheolaeth yn derbyn ymateb cyflymach.

Yn ogystal, er gwybodaeth, mae Cadw wedi ein hysbysu eu bod yn derbyn nifer o geisiadau gan Gynllunwyr Rheolaeth am wybodaeth am safleoedd sydd cryn bellter o'r coetir. Rydym yn adolygu'r adolygydd cyfyngiadau a'r adroddiad gyda'r bwriad o sicrhau'r angen i chi ymgynghori ar safleoedd perthnasol yn unig. Rhown wybod i chi am unrhyw newidiadau yn y dyfodol.

Sut i gysylltu â'r tîm Gwasanaethau Technegol

Tudalen llofnod cynllun sylfaenol

Gweithrediadau a gwneud ceisiadau

Diweddariad GLOS

Cysylltu â'r tîm Gwasanaethau Technegol

Byddem yn annog Cynllunwyr Rheolaeth i gysylltu â'r Swyddog Gwasanaeth Technegol (TSO), os oes angen gwybodaeth neu gyngor ynglŷn ag achos. Y cyfan y gofynnwn amdano yw i chi gynnwys enw a chyfeirnod yr achos yn llinell destun y neges e-bost. Bydd hyn yn cynorthwyo'r TSO i ddelio â'r cais heb orfod cysylltu â'r Cynllunydd Rheolaeth am y wybodaeth hon. Fodd bynnag, os oes gan y Cynllunydd Rheolaeth gais mwy cyffredinol a wnewch ei anfon at gyfeiriad e-bost bww.ts@forestry.gsi.gov.uk os gwelwch yn dda gan fod y cyfeiriad hwn yn cael ei fonitro'n rheolaidd ac yn lleihau'r posibilrwydd o fethu agor y neges yn brydlon oherwydd gwyliau ac ati.

Tudalen llofnod cynllun sylfaenol

Wedi i ymgeisydd lofnodi'r cynllun sylfaenol, mae nifer o Gynllunwyr Rheolaeth yn anfon copi llawn o'r cynllun sylfaenol wedi ei lofnodi at y Tîm Gwasanaethau Technegol. Er nad oes gennym yr un broblem gyda hyn, prif faes ein ffocws yw'r dudalen llofnod cynllun sylfaenol, y mae'n rhaid i ni ei lwytho i fyny i'r achos. Felly, rydym yn hapus i dderbyn y dudalen hon yn unig nid copi o'r cynllun sylfaenol cyfan. Fe ddylai hyn arbed amser a thâl post i Gynllunwyr Rheolaeth .

Gweithrediadau a gwneud ceisiadau

Yn aml, mae'n gyfleus i gyfuno mathau o waith sy'n debyg wrth greu gweithrediadau, er enghraifft dwy iet, neu nifer o geuffosydd. Mae hyn yn arbed amser, ac yn gwneud y rhestr gweithrediadau'n llai anniben.

Fodd bynnag, gair o rybudd wrth wneud cais; ni ellir rhannu'r llinellau gweithrediadau am ei bod yn bosibl eu bod yn Gynllun Grant Coetir (WGS). Felly, os gorffennir dim ond rhan o'r gwaith yn unig, bydd angen diwygio'r weithred cyn gwneud y cais.

Diweddariad System Grantiau a Thrwyddedau Ar-lein (GLOS)

Bydd y datganiad nesaf o ran GLOS ar 26 Mehefin. Fel arfer, fe fydd y Gwasanaeth i lawr gydol y dydd, ond os bydd y datganiad yn caniatáu mynediad cynharach rhown wybod i chi. Mae'r datganiad hwn yn cynnwys:

- Newidiadau i'r ôl troed dolennu gofodol (soniwyd amdano uchod)
- Cyflwyno swyddogaeth traws-wirio Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Telerau ac Amodau (Ts&Cs) Premiwm Tir wedi'i Wella (ILP)
- Crynodeb o'r nodweddion a ddymunir; a
- Newidiadau i reolaeth gyswllt.

Gofyniad gan yr Undeb Ewropeaidd yw trawswirio LICC i sicrhau nad yw'r gwaith yn cael ei ariannu gan fwy nag un cynllun LICC. Yn y gorffennol, cynhaliwyd y trawswirio gan CCC. O'r datganiad hwn, bydd LICC yn cynnal unrhyw traws wiriad a bydd y canlyniadau'n cael eu hanfon yn ôl atom ni. Mae hwn yn faes cymhleth ac ni fyddwn yn manylu arno yma. Bydd dogfen yn esbonio sut mae'r broses yn effeithio ar ddefnyddwyr allanol yn cael ei chynhyrchu cyn gynted ag y bo modd; yn y cyfamser gallwch drafod unrhyw faterion gyda'ch tîm achos.

Mae Telerau ac Amodau Premiwm Tir wedi'i Wella bellach wedi eu cynnwys. Os plannu newydd gyda ILP yw'r weithred, wedyn mae'r telerau a'r amodau'n cael eu cynnwys yn awtomatig. Mewn achosion a gafodd eu cymeradwyo o'r blaen, bydd y telerau a'r amodau'n cael eu mewnosod y tro nesaf yr agorir y ddogfen.

Datganiadau GLOS yn y dyfodol

Problemau gydag Office 2007

Diweddariad cynllun iaith Gymraeg diwygiedig CGG a CCC

Ar gais Grŵp Technegol CGG, symudwyd y crynodeb 'nodweddion a ffactorau a ddymunir' i waelod yr erthygl.

Rheolaeth Gyswllt; cywirwyd nam a oedd yn caniatáu i ddefnyddwyr cofrestredig gyfuno er mwyn edrych ar eu holl achosion ar-lein. Os oes gennych ddefnyddwyr nad ydynt yn gallu gweld eu hachos/achosion cysylltwch â'ch Swyddog Gwasanaeth Technoleg a gofynnwch iddynt gyfuno'r defnyddiwr.

Datganiadau GLOS yn y dyfodol

Amserlennwyd datganiad arall ar gyfer mis Gorffennaf; bydd hyn ar gyfer ailstrwythuro'r bas data. O ganlyniad i hyn, bydd y gwasanaeth yn fwy sefydlog ac effeithlon. Bydd y datganiad nesaf, a fydd yn cynnwys newidiadau ar y sgrin, i'w ddisgwyl ar ddiwedd mis Medi.

Cynlluniau peilot CGG

Gair i atgoffa unrhyw un sydd ynghlwm wrth ein cynlluniau Peilot CGG na fydd unrhyw geisiadau am waith bellach yn cael eu derbyn. Diwygiwyd cytundebau'r llynedd er mwyn caniatáu perchnogion i wneud ceisiadau ym mlwyddyn ariannol 2007/08 ond mae'r cynllun wedi cau yn awr. Dylai perchnogion sy'n dymuno cynnal gwaith sy'n weddill ddod â'r safleoedd i CGG.

Menter Ceirw

Dylai cynllunwyr rheolaeth gysylltu â'r Swyddog Coetir os oes angen Asesiad Rheolaeth Ceirw ar y safle. Bydd Swyddogion Coetir wedyn yn cysylltu â'r Fenter Ceirw er mwyn dechrau'r broses.

Problemau gydag Office 2007™

Os ydych yn defnyddio'r fersiwn hon, cadwch daenlenni a dogfennau fel **.xls** yn hytrach na'r **.xlsx** gwreiddiol a **.doc** yn hytrach na'r **.docx** gwreiddiol. Byddwch wedyn yn gallu eu llwytho i fyny i'ch cynllun CGG heb unrhyw anhawster.

Diweddariad o gynllun iaith Gymraeg diwygiedig CGG a CCC

Gofynnir i ddalwyr cytundebau CGG a Chynllunwyr Rheolaeth cymeradwy nodi, yn dilyn cyflwyno cynllun iaith Gymraeg diwygiedig CCC a chyflwyno canllawiau newydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar grantiau dyfarnu yn gyfochrog â hynny; gosodwyd ymrwymiadau cyhoeddusrwydd ychwanegol ar berchnogion tir pan maent yn derbyn cefnogaeth cymorth grant CGG.

Mae'r holl brosiectau a pholisïau newydd a weithredir gan CCC ar ein rhan bellach yn dod o dan ofynion y cynllun hwn.

Mae Adran 2.10 y cynllun newydd yn nodi "pan rydym (CCC) yn dyfarnu grantiau ar gyfer gweithgareddau sydd i'w cynnal yng Nghymru, gan gynnwys amodau o ran defnydd yr iaith Gymraeg. Byddwn yn ystyried canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg wrth ddyfarnu grantiau."

Er mwyn cydymffurfio â hyn mae CCC wedi diwygio cymal 17 dogfen "Cynllun Gweithrediadau, Telerau ac Amodau Cytundeb" CGG (cyfeirnod TC01), yn benodol mewn perthynas â "Cyhoeddusrwydd" gydag ychwanegiad y paragraff canlynol:

"O dan Adran 3 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, cytunodd Comisiwn Coedwigaeth Cymru y bydd mynediad cyhoeddus a gweithgareddau

Diweddariad staff

Manylion cyswllt a dyddiadau rhifynnau yn y dyfodol

Cylchlythyr cyfredol ac ôl rifynnau ar gael ar wefan CCC:

www.forestry.gov.uk/wales

hamdden a ariennir drwy gynllun grant Coetiroedd Gwell i Gymru yn talu sylw i'r angen i ddeunyddiau a gyhoeddwyd fod yn hollol ddwyieithog pecynnau, cyfarwyddiadau i ddefnyddwyr, bwydlenni, marchnata, (mae hyn yn cynnwys taflenni, llyfrynnau, arwyddion, posteri, cyfarwyddiadau, cyhoeddusrwydd a deunyddiau arddangos) ac unrhyw dudalennau ar y wefan i'w cynhyrchu drwy gefnogaeth cymorth grant Coetiroedd Gwell i Gymru yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg."

Bydd y ddogfen TC01 (Mai 2008) yn cael ei llwytho i fyny cyn bo hir i'w defnyddio ar unwaith ar GLOS ynghyd â chael ei chyfieithu ac fe fydd yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog cyn gynted ag y bo modd ar Lyfrgell Ymgynghori CGG.

Os hoffech fwy o wybodaeth am Gynllun Iaith Gymraeg CCC neu ynglŷn â sut fydd cynllun grantiau CGG yn cael ei fireinio ymhellach i gwrdd â chanllawiau newydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar ddyfarnu grantiau, cysylltwch â Chris Botting, Rheolwr Prosiectau a Datblygu Grantiau a Thrwyddedau naill ai drwy anfon neges e-bost at chris.botting@forestry.gsi.gov.uk neu drwy ei ffonio'n uniongyrchol ar 01970 639840.

Diweddariad staff

Yr haf hwn bydd Rheolwr Gweithrediadau Grantiau a Thrwyddedau newydd yn cael ei benodi. Bydd Rachel Chamberlain, sydd yn Rheolwr Rhanbarth Coedwigoedd Coed y Gororau ar hyn o bryd, yn cymryd ar y swydd. Cyn rheoli'r 22,000 hectar o Goetir y Cynulliad yng ngogledd ddwyrain Cymru bu Rachel yn gweithio gyda thîm Grantiau a Thrwyddedau Caeredin yn datblygu a gweithredu cynlluniau grantiau newydd.

Manylion ar gyfer cysylltu

- Ymholiadau cyffredinol CGG: Ffôn 0845 604 0845 neu ewch i www.forestry.gov.uk
- Ymholiadau technegol: E-bost bww.ts@forestry.gsi.gov.uk
- Gwasanaeth Ar-lein GaTh: Cyswllt www.eforestry.gov.uk
- Awgrymiadau ar gyfer rhifynnau yn y dyfodol: E-bost alison.evans@forestry.gsi.gov.uk

Dyddiadau Rhifynnau:

Cylchlythyr Technegol CGG
▪ Rhifyn 15 – 29 Awst 2008
▪ Rhifyn 16 – 31 Hydref 2008

Cewch y rhifyn cyfredol ac ôl-rifynnau ar wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru www.forestry.gov.uk

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas